OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 720 (Cy. 58)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) a Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *13 Mawrth 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *16 Mawrth 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Ebrill 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**), ac adrannau 2(2), 7(2), 12(2) a 17(2) o Fesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) a Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2015.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

## RHAN 1

### Symiau at Anghenion Personol

**Y symiau y mae eu hangen at anghenion personol**

**2.** Y swm y mae awdurdod lleol i ragdybio bod ei angen ar berson at ei anghenion personol o dan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 yw £25.50 bob wythnos.

(**1**) 1948 p. 29. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(4) o'r Ddeddf Cymorth Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atolden 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)|.

(**2**) 2010 mccc 2.

**Dirymu**

**3.** Mae rheoliad 2 o Reoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Asesu Adnoddau) a Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2014(**3**) wedi ei ddirymu.

# RHAN 2

## Diwygiadau i'r Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol

**Diwygio Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5 (uchafswm rhesymol y ffi am wasanaeth)—

(a) ym mharagraff (2) yn lle'r ffigur "£55.00" rhodder y ffigur "£60.00", a

(b) ym mharagraff (3) yn lle'r ffigur "£55.00" rhodder y ffigur "£60.00".

(3) Mae paragraff (2) o reoliad 5 o Reoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Asesu Adnoddau) a Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2014 wedi ei ddirymu.

**Diwygio Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011**

**5.**—(1) Mae Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011(**5**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5 (yr uchafswm rhesymol o ad-daliad neu gyfraniad sy'n daladwy)—

(a) ym mharagraff (1) yn lle'r ffigur "£55.00" rhodder y ffigur "£60.00", a

(b) ym mharagraff (2) yn lle'r ffigur "£55.00" rhodder y ffigur "£60.00".

(3) Mae paragraff (2) o reoliad 6 o Reoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Asesu Adnoddau) a Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2014 wedi ei ddirymu.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

13 Mawrth 2015

(**3**) O.S 2014/666 (Cy. 73).
(**4**) O.S. 2011/962 (Cy. 136).
(**5**) O.S 2011/963 (Cy. 137).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Penderfynu Ffioedd") a Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol"). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu rheoliadau 2, 5(2) a 6(2) o Reoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Asesu Adnoddau) a Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2014 ("Rheoliadau 2014").

Mae adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth asesu gallu person i dalu am lety o dan Ran 3 o'r Ddeddf, ragdybio, yn niffyg anghenion arbennig, fod angen swm rhagnodedig ar berson at ei anghenion personol bob wythnos. Mae rheoliad 2 yn rhagnodi £25.50 fel y swm y mae ei angen at anghenion personol o dan adran 22(4).

Mae rheoliad 3 yn dirymu rheoliad 2 o Reoliadau 2014 a oedd gynt yn rhagnodi'r swm at anghenion personol o dan adran 22(4).

Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau Penderfynu Ffioedd a rheoliad 5 o'r Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol yn rhagnodi yn eu trefn uchafswm rhesymol y ffi am wasanaeth a'r uchafswm rhesymol o ad-daliad neu gyfraniad sy'n daladwy am y gwasanaeth hwnnw. Mae rheoliadau 4(2) a 5(2) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Penderfynu Ffioedd a'r Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol fel y daw yr uchafswm a nodir yn y naill a'r llall o'r Rheoliadau yn £60.00.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cyflawni Polisïau ar gyfer Plant ac Oedolion, Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.